# TASG: YMSON SAMSON

HAIA! DWI YMA I HELPU! DWI YMA I HELPU TI ACHOS DWI'N GWYBOD AM YR HUNLLEFAU.

BETH AM WYLIO STORI SAMSON UNWAITH ETO, AC AR ÔL EI WYLIO, BETH AM I TI GEISIO DRINGO I BEN Y PYRAMID, I GOPA'R MYNYDD, REIT I'R TOP, ER MWYN I TI DDOD I DDEALL SUT MAE SAMSON YN TEIMLO? EFALLAI BYDD HYN YN DY HELPU DI I DDEALL DY DEIMLADAU DI'N WELL!

10. Crynhowch gyngor Bex i Samson mewn llai na 50 gair

8. Gorffennwch y frawddeg "Mae'n iawn i fecso ond mae'n iawn i _______ _______

9. Pam ydych chi'n meddwl fod Samson yn cuddio allweddi'r tractor?

5. Disgrifiwch beth mae Samson yn ei weld a'i glywed pan mae'n gweld Taid yn yr ysbyty?

6. Beth mae Samson yn meddwl yw'r ateb i'r broblem?

7. Ceisiwch grynhoi beth ddigwyddodd ar ddiwrnod y ddamwain i 50 gair

1. I ble'r aeth Samson i guddio yn yr ysgol pan gafodd ôl-fflachiad?

2. Beth oedd yn curo'n gyflym gyda Samson pan oedd yn cael yr ôl-fflachiad?

3. Pam ydych chi'n meddwl fod Samson yn dilyn ei fam i bob man ar hyn o bryd?

4. Sut ydych chi'n meddwl mae Samson yn teimlo'n cael mynd i weld Taid?

AR ÔL I TI GYRRAEDD Y TOP AC ATEB Y CWESTIYNAU I GYD, YSGRIFENNA YMSON SAMSON AR NOSON Y DDAMWAIN. YMSON YW HEL DY HOLL FEDDYLIAU A'U RHOI AR BAPUR! MAE'N GYFLE I EGLURO POPETH DDIGWYDDODD AR Y DIWRNOD HWNNW. MAE'N OK, GALLWN NI GYMRYD E'N SLO FACH!

BETH AM YSGRIFENNU YMSON SAMSON AR ADEGAU GWAHANOL YN YSTOD Y STORI, ER ENGHRAIFFT, NOSON Y DDAMWAIN, YNA AR ÔL BOD I WELD TAID YN YR YSBYTY AC YNA AR DDIWEDD Y BENNOD.

BETH SY'N MYND TRWY EI FEDDWL PAN MAE'N CAU EI LYGAID? SUT MAE E'N TEIMLO? YDY E'N TEIMLO'N WAHANOL AR ÔL GWELD EI DAID NEU'N TEIMLO'N WAETH? COFIA DDEFNYDDIO DY SYNHWYRAU I GYD I DY HELPU!

WYT TI WEDI PROFI TEIMLADAU TEBYG? PA MOR WAHANOL YW DY DEIMLADAU DI I DEIMLADAU SAMSON?

EFALLAI NAD WYT TI'N GALLU CAEL PETHAU ALLAN O DY FEDDYLIAU DI FEL SAMSON, OND MAE HYNNY'N HOLLOL NORMAL. O LEIA TI'N DECHRAU DEALL BETH YW E NAWR!